COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31 4WB AR DYDD MERCHER, 15 MAI 2019 AM 15:00

Presennol

Y Cynghorydd JR McCarthy – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| SE Baldwin | TH Beedle | JPD Blundell | NA Burnett |
| MC Clarke | N Clarke | RJ Collins | HJ David |
| P Davies | PA Davies | SK Dendy | DK Edwards |
| J Gebbie | T Giffard | RM Granville | CA Green |
| DG Howells | A Hussain | RM James | B Jones |
| M Jones | MJ Kearn | DRW Lewis | JE Lewis |
| D Patel | RL Penhale-Thomas | AA Pucella | JC Radcliffe |
| KL Rowlands | B Sedgebeer | RMI Shaw | CE Smith |
| SG Smith | JC Spanswick | RME Stirman | G Thomas |
| T Thomas | JH Tildesley MBE | E Venables | SR Vidal |
| MC Voisey | LM Walters | CA Webster | DBF White |
| PJ White | A Williams | AJ Williams | HM Williams |
| RE Young | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

S Aspey, DG Owen, KJ Watts a/ac JE Williams

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Susan Cooper | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Michael Pitman | Prentys Busnes Gweinyddol Gwasanaethau Democrataidd |
| Andrew Rees | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Kevin Stephens | Cynorthwy-ydd Gwasanaethau Democataidd |
| Kelly Watson | Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol a Swyddog Monitro |

313. DATGANIAD O FUDDIANT

Dim.

314. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y MAER, Y CYNGHORYDD JR MCCARTHY

Rhoddodd y Maer wybodaeth i'r Cyngor am y digwyddiadau yr oedd ef a'i Gymar wedi mynychu yn y mis diwethaf; roedd hynny'n cynnwys agor y cam diweddaraf o'r llwybr diogel i'r ysgol o Ysgol Croesty i Coychurch. Roedd y Maer a'i Gymar wedi ymweld ag ysgol iau Brynteg i glywed stori ddirdynnol Eva Clarke a oroesodd yr Holocost. Dywedodd y Maer wrth y Cyngor ei fod ef a'i Gymar wedi mynychu cinio ymddeoliad Dame Kate Thomas, a oedd yn ymddeol o'i swydd fel Arglwydd Raglaw.

Byddai ef a'i Gymar yn mynychu tri digwyddiad pellach, a diolchodd i'r holl Aelodau a swyddogion am eu cymorth yn ystod ei flwyddyn fel Maer.

315. ETHOL Y MAER I'W ARWISGO YN Y SEREMONI DDINESIG AGORIADOL AR 22 MAI 2019 A'R MAER (A ETHOLWYD) I GYHOEDDI ENW EI GYMAR/HEBRYNGWR

Gwnaed cynnig a eiliwyd yn briodol ac a gefnogwyd yn unfrydol, y dylid penodi'r Cynghorydd SE Baldwin yn Faer ar gyfer 2019/20.

PENDERFYNWYD: Ethol y Cynghorydd SE Baldwin yn Faer am y flwyddyn i ddod.

Cyhoeddodd y Cynghorydd Baldwin mai ei Gymar am y flwyddyn i ddod fyddai ei bartner, Mr Craig Williams.

316. PENODI'R DIRPRWY FAER I'W ARWISGO YN Y SEREMONI DDINESIG AGORIADOL AR 22 MAI 2019 A'R DIRPRWY FAER (A ETHOLWYD) I GYHOEDDI ENW EI GYMAR/HEBRYNGWR

Gwnaed cynnig a eiliwyd yn briodol ac a gefnogwyd yn unfrydol, y dylid penodi'r Cynghorydd KJ Watts yn Ddirprwy Faer ar gyfer 2019/20.

PENDERFYNWYD: Ethol y Cynghorydd KJ Watts yn Ddirprwy Faer am y flwyddyn i ddod.

Cyhoeddwyd mai'r Cynghorydd JE Williams fyddai Cymar y Dirprwy Faer am y flwyddyn i ddod.

317. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y MAER OEDD NEWYDD EI ETHOL

Cyhoeddodd y Cynghorydd Baldwin ei fod yn anrhydedd mawr iddo gael ei ethol yn Faer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a'i fod yn edrych ymlaen at fynychu ystod eang o ddigwyddiadau yn ystod ei flwyddyn yn y swydd. Diolchodd i'r cyn Faer a'i Gymar am y ffordd yr oeddynt wedi gwasanaethu'r Fwrdeistref Sirol gydol eu blwyddyn yn y swydd.

318. ETHOL ARWEINYDD CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR

Gwnaed cynnig a eiliwyd yn briodol, y dylai'r Cynghorydd HJ David gael ei ethol yn Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer 2019/20.

PENDERFYNWYD: Ethol y Cynghorydd HJ David yn Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr am y flwyddyn i ddod.

319. CYTUNO AR NIFER YR AELODAU I'W PENODI I'R CABINET

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet ar gyfer 2019/20 yn cynnwys yr Arweinydd, y Dirprwy Arweinydd a phedwar Aelod Cabinet yn cefnogi portffolios.

320. DERBYN ADRODDIAD YR ARWEINYDD

Diolchodd yr Arweinydd i'w gyd-aelodau am ei ethol yn Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac addawodd y byddai unwaith eto yn rhoi ei holl sylw a'i ffocws i'r rôl. Byddai angen ffocws cryf yn y deuddeg mis nesaf, gyda degfed flwyddyn y llymder yn agosáu. Mae'r dyfodol yn parhau i fod yn heriol i lywodraeth leol, gyda gofyn i'r Cyngor arbed £35m ychwanegol yn y blynyddoedd i ddod; bydd hynny'n effeithio'n sylweddol ar wasanaethau lleol a chodiadau yn y dreth gyngor.

Dywedodd wrth y Cyngor bod llywodraeth leol a chymdeithas mewn cyfnod o newid, gyda'r ansicrwydd ynghylch Brexit, y Cyngor bellach yn rhan o ardal awdurdod iechyd newydd, wynebu galwadau cynyddol am fwy o gydweithio rhanbarthol a gweld

newidiadau sydyn yn y rolau y mae cynghorau yn eu chwarae ym mywydau pobl sy’n byw ledled y DU. Dywedodd nad yw’r Cyngor wedi ymatal rhag gwneud penderfyniadau anodd yn ystod y cyfnod hwn, nac ychwaith wedi colli golwg ar sicrhau diogelwch a llesiant parhaus y trigolion mwyaf bregus, er gwaethaf gorfod darparu gwasanaethau yn erbyn cefndir o adnoddau cyfyng a oedd yn gofyn am ethos o gadernid.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae’r Cyngor wedi penodi Prif Weithredwr newydd, Cyfarwyddwr Addysg a Swyddog Monitro newydd, gyda’r Cyngor yn datblygu ei staff a dyrchafu’n fewnol. Mae’r Cyngor felly’n gallu manteisio ar dîm rheoli newydd sydd â phrofiad helaeth o’r sefydliad, a bydd y Cabinet yn parhau i weithio ochr yn ochr â nhw er mwyn wynebu heriau’r dyfodol yn uniongyrchol.

Roedd yr Arweinydd yn cydnabod ymdrechion staff ar bob lefel dros y naw mlynedd diwethaf, sydd wedi bod ar flaen y gad o ran darparu gwasanaethau’r cyngor a chynnal safonau uchel mewn amgylchiadau eithriadol o anodd. Mae torri dros 400 o swyddi o’r sefydliad wedi cynyddu’r gofynion a roddir ar staff ar bob lefel o fewn y sefydliad, ond roedd yn galonogol gwybod bod gan yr awdurdod weithlu medrus ac ymroddgar wrth edrych ar y flwyddyn sydd i ddod.

Er bod llai o adnoddau gan y Cyngor, dywedodd yr Arweinydd ei fod bob amser yn ceisio cydbwyso hyn gydag arloesedd a buddsoddiad yn y dyfodol. Dywedodd hefyd na ddylai’r Cyngor fyth golli golwg o’r angen i fuddsoddi yn ei gymunedau, moderneiddio a newid gwasanaethau a buddsoddi mewn pobl ifanc. Mae’r Cyngor wedi agor cyfleuster Gofal Ychwanegol yn Ynysawdre a bydd ail gyfleuster yn agor cyn hir ym Maesteg. Mae cartrefi preswyl i blant wedi cael eu hail-fodelu i ddarparu hwb gydag uned asesu tymor byr newydd sy’n cynnwys gofal therapiwtig arbenigo am y tro cyntaf, ac uned frys newydd. Mae hyn wedi helpu i osgoi trefnu lleoliadau tu allan i’r sir mewn llety diogel.

Mae’r Cyngor wedi cydweithio gyda sefydliadau fel iechyd a Heddlu De Cymru i sefydlu Hwb Diogelu Aml Asiantaeth; mae hyn yn helpu i ymateb i bryderon ynghylch diogelu mewn modd cydlynol ac effeithiol. Mae’r Cyngor hefyd wedi cytuno i gefnogi pobl ifanc sy’n gadael gofal trwy sicrhau eu bod wedi’u heithrio rhag talu’r dreth gyngor hyd nes eu bod yn 25 oed. Mae hefyd yn cynorthwyo teuluoedd mewn galar trwy ddileu ffioedd claddu ac amlosgi i blant a phobl ifanc dan 18 oed.

Mae’r Cyngor yn parhau i chwyldroi’r modd y gall pobl gael gafael ar wasanaethau’r cyngor, ac rydym wedi gweld pobl yn gwneud busnes gyda’r Cyngor ddydd a nos diolch i'r cyfleuster Fy Nghyfrif newydd ar-lein. Mae rhaglen foderneiddio bwysig Ysgolion yr 21ain ganrif wedi cyflawni cryn lwyddiant yn y flwyddyn ddiwethaf. Rydym yn falch ein bod wedi gallu agor ysgolion cynradd cyfoes ym Mrynmenyn, Pencoed, Bettws a Calon y Cymoedd. Dros y bum mlynedd nesaf, bydd Band B y rhaglen yn gweld buddsoddiad pellach o fwy na £65m a phum ysgol newydd arall, gan gynnwys dwy ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ac ysgol arbennig fodern newydd. Bydd buddsoddi mewn addysg yn rhoi i bobl ifanc y sgiliau y byddant eu hangen, a sgiliau angenrheidiol i’r economi leol allu ffynnu.

Mae prinder gofod masnachol i fusnesau bach a microfusnesau. Y buddsoddiad o £5.5m yn y Rhaglen Hwb Menter i greu 1,800 metr sgwâr o unedau busnes newydd ym Mrocastle, Ystâd Ddiwydiannol Village Farm a’r Ganolfan Arloesi yw’r estyniad mwyaf erioed o ofod busnes ar gyfer busnesau bach yn hanes y Fwrdeistref Sirol. Mae cyfres o brosiectau yn cael eu datblygu drwy Fargen Ddinesig Rhanbarth Prifddinas Caerdydd sy’n rhaglen tymor hir o 10 mlynedd, ac fel Cadeirydd yr Awdurdod Trafnidiaeth Lleol, roedd yr Arweinydd yn falch o allu cyhoeddi’n ddiweddar gynigion ar gyfer cyfleuster parcio a theithio yng ngorsaf Y Pîl. Bydd y Cynllun Cefnogi Graddedigion yn gweld y Cyngor yn gweithio gyda chyflogwyr lleol i greu cyfleoedd gyda busnes fel Sony ym Mhencoed a Rockwool yn Heol Y Cyw. Gyda phresenoldeb cwmnïau gwyddorau bywyd

technolegol sydd ar flaen y gad o fewn yr ardal yn cyflogi arbenigwyr hynod o fedrus, rydym yn ceisio manteisio ar brosiect clwstwr lled-ddargludyddion cyntaf y byd.

Y Cyngor hwn yw'r unig yn yng Nghymru i gael strategaeth a chynllun ynni ar waith ar gyfer lleihau allyriadau carbon 95%, gan arwain y DU ac nid Cymru'n unig. Yn fwy arwyddocaol, bydd prosiect ynni dŵr pwll glo ar raddfa fawr cyntaf y DU, a'r unig un hyd yma yn y Fwrdeistref Sirol, a phrosiect Rhwydwaith Gwres Ardal ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae'r Cyngor yn cefnogi menter effeithlonrwydd ynni domestig a fydd yn helpu cartrefi sy'n dioddef o dlodi tanwydd, ac yn treialu'r technolegau hybrid diweddaraf yn un o labordai byw prin y DU drwy fentrau fel y prosiect Freedom ym Mracla. Dywedodd bod potensial hwn yn enfawr o ystyried fod polisi diwydiannol ac economaidd y Fargen Ddinesig, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn nodi bod ynni yn flaenoriaeth strategol a diwydiannol. Mae'r gwasanaeth casglu ac ailgylchu gwastraff ar ymyl y ffordd, a brwdfrydedd ac ymdrechion trigolion yn golygu mai'r Cyngor yw'r awdurdod sy'n perfformio ail orau yng Nghymru, ac rydym yn debygol o ragori ar y targed ailgylchu a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Cyhoeddodd yr Arweinydd bod y Cyngor wedi buddsoddi miliynau mewn pethau fel ail-osod neu ail-wynebu ffyrdd a phalmentydd ledled y fwrdeistref sirol, neu osod goleuadau stryd fwy effeithlon. Yn y flwyddyn sydd i ddod, bydd y Cyngor yn buddsoddi miliynau mwy mewn mentrau sy'n cynnwys helpu pobl i gael gafael ar, a datblygu cyfleusterau hanfodol i'r anabl, a sicrhau bod pontydd lleol yn dal i fod yn ddiogel i'w defnyddio.

Mae'r Cyngor wedi buddsoddi mewn amddiffynfeydd môr newydd ac mae'r rhain wedi'u cwblhau'n ddiweddar yn nhraeth y dref, Porthcawl, a hefyd y ganolfan chwaraeon dŵr newydd sydd bron â'i chwblhau yn Rest Bay. Dyma rannau eraill arall o'r jig-so adfywio i'r dref, ac mae gennym gynlluniau cyffrous yn yr arfaeth a fydd yn sicrhau mwy o welliannau cyn hir. Mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen ar gynlluniau i ail-ddatblygu Neuadd y Dref Maesteg er mwyn ei chadw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol fel canolfan i'r celfyddydau a hwb diwylliannol. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau'r gwerth mwyaf posibl o Dasglu'r Cymoedd Llywodraeth Cymru i'r Llynfi, Ogwr a'r Garw. Mae'r Cyngor eisoes wedi gweld buddsoddiad yng Nghwm Garw drwy raglen Pyrth Darganfod Parc Rhanbarthol y Cymoedd. Mae hyn i gyd wedi'i gyflawni ar adeg fo'r Cyngor wedi'i orfodi i ganfod miliynau lawer o arbedion yn wyneb llymder parhaus. Mae'r Cyngor wedi gorfod newid yn sylfaenol y ffordd y mae'n darparu gwasanaethau rheng flaen allweddol, trwy fwy o gydweithredu, gweithio partneriaeth a'r defnydd o gamau arloesol fel trosglwyddiadau asedau cyhoeddus. Dywedodd y bydd yn rhaid i'r Cyngor barhau i weithio mewn ffordd ymgysylltiol a chynhwysol gyda phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat.

Dywedodd yr Arweinydd wrth y Cyngor bod cydbwyso disgwyliadau pobl yn erbyn realiti'r hyn y mae'n rhaid ei wneud yn gallu bod yn un o brofiadau mwyaf rhwystredig unrhyw Gynghorydd. Er bod hynny'n parhau i fod yn her, nid yw'n tynnu sylw'r Cyngor o wneud y peth iawn, a dywedodd ei fod yn credu y bydd y Cyngor yn parhau i geisio sicrhau'r canlyniadau gorau posibl o dan yr amgylchiadau. Nododd y bydd Aelodau yn parhau i fod yn uchelgeisiol i'r Fwrdeistref Sirol.

Yn ei rôl fel Arweinydd, mae'n cael cefnogaeth cyd-aelodau yn y Cabinet, ac roedd am gydnabod eu cyfraniad i'r gwaith o arwain yr awdurdod gan ddiolch iddynt am eu cefnogaeth barhaus a gwerthfawr. Nododd mai un o nodweddion positif y Cyngor hwn yw'r ffordd y mae'r Cyngor yn gallu gweithio ar draws pleidiau gwleidyddol a sicrhau consensws. Diolchodd i'r Cynghorwyr Clarke, Giffard, James a Penhale-Thomas am gydweithio fel Arweinwyr Grŵp. Nododd bod dyletswydd ar gynrychiolwyr etholedig i wneud hynny er lles y cymunedau y maent yn eu cynrychioli.

Gorffennodd yr Arweinydd drwy ddweud bod y Cyngor yn parhau'n gryf, sefydlog ac yn eithaf unedig a thrwy gydweithio i amddiffyn gwasanaethau hanfodol i'r mwyaf bregus, blaenoriaethu buddsoddiad yn y dyfodol, gall sicrhau bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gallu parhau i ymdopi â'r heriau anochel sydd o'n blaenau.

321. YR ARWEINYDD I BENODI AELODAU'R CABINET

PENDERFYNWYD: Penododd yr Arweinydd yr Aelodau canlynol i'r Cabinet:-

Cynghorydd HW Williams
Cynghorydd D Patel
Cynghorydd PJ White
Cynghorydd CE Smith
Cynghorydd RE Young

322. GALLAI'R ARWEINYDD GYHOEDDI DIRPRWY ARWEINYDD CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR O BLITH YR AELODAU HYNNY A BENODWYD I'R CABINET A GALLAI GYHOEDDI PENODI AELODAU'R CABINET I BORTFFOLIOS

PENDERFYNWYD: Cyhoeddodd yr Arweinydd mai'r Dirprwy Arweinydd ar gyfer 2019/20 fyddai'r Cynghorydd HM Williams, ac y byddai'n gyfrifol am Adnoddau.

Ychwanegodd y byddai'r Aelodau Cabinet canlynol yn gyfrifol am y portffolios dan sylw:-

Cynghorydd D Patel – Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol
Cynghorydd PJ White – Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar
Cynghorydd RE Young – Cymunedau
Cynghorydd CE Smith – Addysg ac Adfywio

323. RHAGLEN ARFAETHEDIG O GYFARFODYDD CYFFREDIN Y CYNGOR A PHWYLLGORAU'R CYNGOR

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad i gynnig rhaglen o gyfarfodydd cyffredinol y Cyngor a Phwyllgorau'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn drefol Mai 2019 – Ebrill 2020 i'w chymeradwyo, ac i nodi'r rhaglen o gyfarfodydd ar gyfer y flwyddyn drefol Mai 2020 – Ebrill 2021.

Cyhoeddodd y Swyddog Monitro fod un newid i'r rhaglen o gyfarfodydd ar gyfer y flwyddyn 2019-2020, sef bod cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol yn newid o 18 Gorffennaf 2019 i 17 Gorffennaf 2019.

Gofynnodd aelod a fyddai modd adolygu amserau'r cyfarfodydd, ac a fyddai modd ystyried cynnal rhai cyfarfodydd o'r Cyngor gyda'r hwyr. Dywedodd y Swyddog Monitro wrth y Cyngor y byddai'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ystyried elfennau o'r Cyfansoddiad er mwyn adolygu'r cyfnod amser ar gyfer cyflwyno Cwestiynau a Chynigion, a hefyd amserau cyfarfodydd y Cyngor. Byddai adroddiad ar ganlyniad yr adolygiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn:-

(1) Cymeradwyo'r rhaglen arfaethedig o gyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2019/20 fel y nodir ym mharagraff 4.1 yr adroddiad.

(2) Cymeradwyo'r rhaglen arfaethedig o gyfarfodydd Pwyllgorau'r Cyngor a nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn, yn amodol ar y newid uchod.

(3) Nodi rhaglen dros dro cyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgorau ar gyfer 2020/21, a nodir yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn.

(4) Nodi dyddiadau Cabinet, Pwyllgorau'r Cabinet a Chydbwyllgor y Cabinet sydd hefyd wedi'u nodi yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn, er gwybodaeth.

324. PENODIADAU I BWYLLGORAU'R CYNGOR A CHYRFF ERAILL Y CYNGOR YN UNOL Â DARPARIAETHAU DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 A DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Gofynnodd y Swyddog Monitro am gymeradwyaeth ar gyfer penodi Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu a pha bynnag Bwyllgorau, Is-bwyllgorau, Panelau a chyrff eraill y mae'r Cyngor yn ystyried eu bod yn briodol, i ymdrin â materion nad ydynt wedi'u neilltuo i'r Cyngor llawn nac ychwaith yn swyddogaethau gweithredol.

Nododd y Swyddog Monitro bod Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gwneud nifer o ofynion mewn perthynas ag aelodaeth y Pwyllgor Archwilio, gan gynnwys Aelodaeth Leyg a phenodi'r Cadeirydd. Mae'n ofynnol i'r Cadeirydd dan y Mesur gael ei benodi gan y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod cyntaf sydd wedi'i drefnu ar gyfer 13 Mehefin 2019. O ran Aelodaeth Leyg y Pwyllgor hwn, cafodd Ms J Williams ei hailbenodi am dymor pellach yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 17 Mai 2017, ac yn unol â'r Mesur, mae ganddi hawl i wneud uchafswm o ddau dymor ar y Pwyllgor yn y rôl hon.

Nododd y Swyddog Monitro hefyd bod newid i gylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio i gynnwys y swyddogaeth ganlynol "*Derbyn copi o adroddiad ynghylch y digwyddiadau a'r methiannau agos y rhoddwyd gwybod amdanynt dan Weithdrefn Rhoi Gwybod am Ddigwyddiadau a Methiannau Agos Rheolaeth Risg Corfforaethol (ac eithrio Iechyd a Diogelwch".*

Dywedodd y Swyddog Monitro bod gan y Pwyllgor Safonau saith aelod ar hyn o bryd, a bod lle gwag ar gyfer Cynghorydd Tref a Chymuned. Argymhellodd y dylai'r aelodaeth barhau'r un fath ar hyn o bryd ac y dylid newid Rhan 3 y Cyfansoddiad mewn perthynas ag aelodaeth y Pwyllgor Safonau i gyd-fynd â hyn.

Dywedodd y Swyddog Monitro hefyd bod gan y Cyngor Bwyllgor Penodi ar waith er mwyn cyfweld a phenodi staff lefel JNC, sy'n cynnwys swyddi dynodedig megis y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth. Er mwyn cynnwys pob un o'r Arweinwyr Grwpiau gwleidyddol ar y Pwyllgor Penodi, cynigir y dylid ychwanegu 2 Aelod, sef Arweinydd Grŵp Annibynwyr Llynfi a sedd ychwanegol i'r Grŵp Llafur i gynnal eu lefel priodol o gynrychiolaeth ar Bwyllgorau yn gyffredinol.

Dywedodd y Swyddog Monitro wrth y Cyngor bod y Mesur hefyd yn sefydlu gweithdrefnau lle mae Cadeiryddion Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn cael eu henwebu a'u penodi. Mae'r Mesur yn mynnu bod Cadeiryddion y Pwyllgorau hyn yn cael eu penodi fel isafswm ar sail maint a chydbwysedd gwleidyddol pob un o'r grwpiau sy'n rhan o'r Cyngor. Yn unol â chyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor, a'r fformiwla a ddefnyddir o dan y Mesur Llywodraeth Leol mewn perthynas â dyrannu Cadeiryddion Trosolwg a Chraffu, dylai'r rhain gael eu dyrannu i'r grwpiau gwleidyddol canlynol:

| **Grŵp Gwleidyddol** | **Nifer y Cadeiryddion i'w dyrannu** |
|---|---|
| Llafur | 1 Cadeirydd |

| | |
|---|---|
| Ceidwadwyr | 1 Cadeirydd |
| Cynghrair Annibynnol | 1 Cadeirydd |
| Annibynwyr Llynfi | 0 Cadeirydd |
| Plaid Cymru | 0 Cadeirydd |

Dywedodd y Swyddog Monitro wrth y Cyngor nad yw swydd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Corfforaethol wedi ei dyrannu, ac felly yn unol â'r Mesur, bydd yn cael ei benodi gan aelodau'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol o blith un o Gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu ar Bynciau ond ni all fod yn Gadeirydd sy'n cynrychioli'r Grŵp Gweithredol.

Nododd bod cylch gwaith a swyddogaethau presennol y Pwyllgorau a chyrff eraill y Cyngor yn parhau heb eu newid fel y manylir arnynt yn Rhan 3 y Cyfansoddiad – Cyfrifoldeb am Swyddogaethau'r Cyngor, a bod cydbwysedd gwleidyddol yn hanfodol i bennu dyraniad seddau ar Bwyllgorau. Dangosodd strwythur y pwyllgorau presennol ac aelodaeth bresennol y pwyllgorau a fydd yn sail i unrhyw newidiadau i aelodaeth y pwyllgorau.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn:-

(1) Penodi'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac unrhyw Bwyllgorau eraill y mae'r Cyngor yn ystyried sy'n briodol i ddelio â materion nad ydynt wedi'u neilltuo i'r Cyngor nac yn swyddogaethau gweithredol;

(2) Penderfynu ar faint a chylch gorchwyl y Pwyllgorau hynny fel y'u nodir yn **Atodiad 1** yr adroddiad;

(3) Penderfynu ar ddyrannu seddi i grwpiau gwleidyddol yn unol â'r rheolau cydbwysedd gwleidyddol fel y'u nodir yn **Atodiad 2** yr adroddiad;

(4) Penderfynu pa grwpiau gwleidyddol a gynrychiolir yn y Cyngor sydd â'r hawl i wneud pa benodiadau o ran Cadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu;

(5) Derbyn enwebiadau a phenodi Cynghorwyr i wasanaethu ar bob un o'r Pwyllgorau, Paneli a chyrff efell (fel y nodir);

- Panel Apeliadau
- Pwyllgor Penodiadau (Cadeirydd – Yr Arweinydd)
- Pwyllgor Archwilio
- Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
- Pwyllgor Rheoli Datblygu
- Pwyllgor Trwyddedu
- Pwyllgor Deddf Trwyddedu 2003
- Fforwm y Cynghorau Tref a Chymuned
- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bynciau 1
- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bynciau 2
- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bynciau 3
- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol

(6) Derbyn enwebiadau a phenodi Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau, y Paneli a'r cyrff eraill canlynol (fel y nodwyd) gan nodi y bydd y Pwyllgor

Archwilio yn ei gyfarfod cyntaf a drefnir yn penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd:-

- Cadeirydd y Panel Apeliadau – Cynghorydd NA Burnett
- Is-Gadeirydd y Panel Apeliadau – Cynghorydd PA Davies
- Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd – Cynghorydd E Venables
- Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu – Cynghorydd G Thomas
- Is-Gadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu – Cynghorydd RM Granville
- Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu a Phwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 – Cynghorydd DRW Lewis
- Is-Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu a Phwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 – Cynghorydd PA Davies
- Cadeirydd Fforwm y Cynghorau Tref a Chymuned – Cynghorydd HJ David
- Is-Gadeirydd Fforwm y Cynghorau Tref a Chymuned – Cynghorydd CE Smith

(7) Derbyn enwebiadau a phenodi Cadeiryddion i'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu canlynol:-

- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bynciau 1 – Cynghorydd CA Webster
- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bynciau 2 – Cynghorydd CA Green
- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bynciau 3 – Cynghorydd JC Spanswick

(8) Bod aelodaeth y Pwyllgor Safonau barhau'r un fath ar hyn o bryd yn unol â pharagraff 4.3 o'r adroddiad ac y dylid newid Rhan 3 y Cyfansoddiad mewn perthynas ag aelodaeth y Pwyllgor Safonau i gyd-fynd â hyn;

Cymeradwyo newid Rhan 3 o'r Cyfansoddiad mewn perthynas â chylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio yn unol â pharagraff 4.2.3 yr adroddiad a'r Pwyllgor Penodi yn unol â pharagraff 4.4.2 yr adroddiad.

325. CYNRYCHIOLAETH AR GYRFF ALLANOL A PHWYLLGORAU ERAILL

Gofynnodd y Swyddog Monitro am gymeradwyaeth y Cyngor i benodi Aelodau i Banel Heddlu a Throseddau De Cymru, Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bargen Ddinesig Rhanbarth Prifddinas Caerdydd a Grŵp Cynllunio Strategol De Ddwyrain Cymru.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r enwebiadau canlynol i'r cyrff a restrir isod:-

Panel Heddlu a Throseddau De Cymru – Cynghorydd RE Young

Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bargen Ddinesig Rhanbarth Prifddinas Caerdydd - Cynghorydd JP Blundell

Grŵp Cynllunio Strategol De Ddwyrain Cymru – Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu

326. ADRODDIAD PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2019/2020

Rhoddodd y Swyddog Monitro wybodaeth i'r Cyngor am Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol mewn perthynas â lefel ac amrediad y gydnabyddiaeth ariannol y mae'n rhaid i'r Awdurdod ei rhoi i Aelodau ar gyfer y flwyddyn drefol 2019/20.

Rhoddodd y Swyddog Monitro grynodeb o benderfyniadau'r Panel mewn perthynas â lefel y cyflog sylfaenol; uwch gyflogau; cyflogau'r Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd; Aelodau'r Cabinet; Cadeiryddion Pwyllgorau; Arweinydd y grŵp wrthblaid mwyaf; arweinwyr grwpiau'r gwrthbleidiau; cyflogau dinesig ac aelodau cyfetholedig. Dywedodd bod Adroddiad Blynyddol Drafft y Panel wedi bod yn destun ymgynghoriad â holl gynghorau Cymru. Dywedodd hefyd bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi gwneud sylwadau ac wedi penderfynu ysgrifennu at y Panel yn nodi ei fod yn cefnogi'r penderfyniadau, ond bod angen hefyd i Banel Annibynnol Cymru ystyried y pwysau sydd ar gyllidebau awdurdodau lleol wrth osod lefelau cyflog. Roedd hefyd yn gofyn i'r Panel fod yn ofalus wrth benderfynu ar ddyfarniadau cyflog gan fod angen i'r Cyngor ddangos i'r cyhoedd ei fod yn ymwybodol o gyfyngiadau ar y gyllideb wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

Dywedodd y Swyddog Monitro wrth y Cyngor y byddai cyflwyno'r cynigion hyn yn codi cost cyflogau Aelodau, sef £268 fesul Aelod Etholedig, sy'n cyfateb i £14,472.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor:

(1) yn nodi'r penderfyniadau a'r argymhellion o fewn Adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaethau Ariannol mewn perthynas â'r lefel a'r amrediad y mae'n rhaid i'r Awdurdod ei dalu i'w Aelodau ar gyfer y flwyddyn drefol 2019/20;

(2) Yn cymeradwyo:

- mabwysiadu penderfyniadau perthnasol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaethau Ariannol o fewn ei adroddiad ar gyfer 2019;
- y swyddi hynny (fel y dangosir yn Rhestr ddiwygiedig Cydnabyddiaethau Ariannol i Aelodau), a fydd yn derbyn cyflog uwch/cyflog dinesig;
- lefel y gydnabyddiaeth ariannol i'r Cyflogau Uwch a Dinesig (lle bo hynny'n briodol);
- Rhestr ddiwygiedig Cydnabyddiaethau Ariannol i Aelodau yn Atodiad 2, er mwyn i'r rhestr ddod i rym o 15 Mai 2019 (Cyfarfod Blynyddol y Cyngor).

bod Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau yn cael ei diweddaru gydag unrhyw newidiadau y gwna'r Cyngor i swyddi Cyflogau Uwch/Dinesig yn ddiweddarach yn ystod blwyddyn drefol 2019/20.

Daeth y cyfarfod i ben am 15:45